YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1891. [RHIF 46

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda"—PAUL

MORDAITH BYWYD.

YR oedd llong, llwythog o ymdeithwyr, yn croesi'r eigion llydan, ac yn ymrwymedig am bellenig wlad. Ddydd ar ol dydd a nos ar ol nos gyrid hi hwnt ac yma, yn chwareubeth y gwyntoedd a'r tonau, nes gwneuthur y daith yn hir ac yn flin; ond o'r diwedd ymollyngodd y gwynt a thawelodd y mor, ac ymlonyddodd y llong, tra'r oedd hi eto yn mhell pell o ben y daith.

Ond heb fod yn nepell o'r fan lle'r oedd wedi aros yn ddigyffro, a'i chynfas yn fflapio yn esmwyth a'r draws yr hwylbreni, canfyddwyd ynys yn y golwg, golygfa roesawgar i lygaid blinion heb weled dim dros lawer dydd a nos hirfaith ond y llydan eang for.

Ynys brydferth oedd. Coedydd ardderchog oeddynt arni, llwythog o ffrwythau, teg i edrych arnynt, a blasus i'r archwaeth, ac yn ymsaethu i fyny yn urddasol ar lechweddau'r bryniau; llifai'r ffrydiau oriwaered gyda dwndwr tawel trwy'r dyffrynoedd ffrwythlawn, adseiniai'r fforestydd gan seiniau melusber y cor asgellog; pyngai'r blodeu a'r ffrwythau ar y cangau, yn hardd i'r olwg a hyfryd i'r archwaeth; a mwy rhyfeddol fyth, gorweddai gemau o ddysgleirdeb tanbeidiol ar y traeth, oedd megys gwddfgadwyn dlysog o amgylch yr ynys.

Ymdyrai'r teithwyr ar y *deck*, a llygadrythent er ceisio dal ar holl fanylion yr olygfa ysplenydd. Ymawyddai pob un i fyned ar y lan. Ar hyny ymgodai trwst tafodau bywiog, rhai'n edmygu, rhai'n dyheu; rhai'n cynghori, rhai'n gorchymyn; rhai'n ymhywedd, rhai'n ymwrthod; rhai'n canmol, rhai'n ceryddu. Yr oedd yr opiniynau yn

rhanedig iawn. A gawsent aros ar y bwrdd i ddysgwyl awel ffafriol, a allai godi ar unrhyw foment? neu a gaent fyned ar y lan ychydig bach, ac felly golli eu siawns o hwylio'n gyflym i ben eu taith?

Yr oedd cyfeillion a pherthynasau yno,—oll gydag un dymuniad—lles y llong dda, a llwyddiant ei mordaith; ond yr oedd y cyfeillion a'r perthynasau yn methu cytuno, ac yn y diwedd, gwnaeth pob un fel yr ewyllysiai. Ac felly ymranasant oll yn bump dosparth gwahanol.

Yr oedd yn well gan un aros ar y bwrdd, yn y gobaith y deuai awel ffafriol yn y man, a'i cludai'n fuan i ben eu taith. Awyddent ymweled â'r ynys brydferth a mwynhau ei phrydferthion dirif; ond meddylient drachefn am y dedwyddwch oedd yn aros iddynt pan gyrhaeddent ben eu taith. "'Wyddon' ni ddim pryd y cyfyd yr awel." Felly'r ymresyment. "Ni ddaethom ni ar y bwrdd i redeg ar ol pob pleser diflanol. Ni wnawn beryglu llwyddiant ein mordaith er mwyn pleser y foment."

Anturiai dosparth arall i ruthro tua'r lan. Sangent y tir sych gyda phleser pur. Yr oedd megys ymryddhad o garchar, ar ol hir gyfyngiad mewn llong lawn, i gael rhodiana ar y glas melfedaidd heb rwystr. Yr oedd yn llawenydd newydd iddynt, ar ol bwyd cwrs a sych y llong, i gael tynu'r ffrwythau melusion, i gael tori ar eu heisiau â bwyd oedd mor swynol i'r archwaeth. Yr oedd yn hyfrydwch perlewygol i gael bwrw eu llygaid dros yr olygfa deg; ond mwynhaent y pleserau yma gyda chymmedroldeb a hunanlywodraeth; ac yn fuan dychwelasant i'w cartref ar y don gyda'u nerth wedi ei adnewyddu, ac wedi eu gwellhau yn gorfforol a meddyliol gan y golygfeydd prydferth oeddynt wedi weled a'r pleserau melusion oeddynt wedi cael archwaeth o honynt. Dychwelasant mewn amser da; gan fod y llong etto yn gorphwys yn ddigyffro ar y mor tawel.

Y trydydd dosparth a aethant i'r lan gyda'r ail; ond heb arfer yr un hunanlywodraeth, oedasant yn hir ac yn ddiystyr uwchben y mwynderau a gyfarfyddent ar yr ynys, a llyncwyd hwy i fyny gan ei digrifwch a'i phleserau, nes i chwibaniad main y penbadwr rybuddio fod yr awel wedi codi. Yn y pellder canfyddent yr hwyliau yn llanw yn y gwynt, clywent glic y capstan fel yr oedd yn llusgo'r angor i fyny o'i wely tywodog. Rhuthrasant gyda brys i fewn i'r bad, rhwyfent â'u holl allu, ac er yn ddiweddar, *just in time*, cyrhaeddasant y llong; ond cawsant fod eu cwsgleoedd wedi eu symud, eu cydymdeithwyr wedi eu meddiannu, a bu'r diweddariaid yn hir cyn setlo i lawr i ddim tebyg i gwmffwrdd.

Y pedwerydd dosparth a ddylynodd yr ail a'r trydydd ar eu hymweliad â'r ynys. A llygaid trachwantus y bwrient drem ar y ffrwythau, fel yr hongiai'n ddeniadol ar y coedydd, ac etto yn fwy trachwantus ar y gemau drudfawr orweddent yn wasgaredig ar y traeth tywodog. Daeth y chwant i gasglu yn nwyd llosgadwy yn eu mynwesau. Yr oedd eu calonau yn ymddyheu am bob peth welai eu llygaid. Y rhosyn persawrus hwn, y perlyn deigrynog acw, y ffrwyth melus hwn, a'r aur dysglaer acw, yr oeddynt yn swyno'u synwyrau ac yn sefydlogi eu holl feddyliau. Sicrhau y rhai hyn a chant o drysorau heblaw oedd eu holl fryd.

O'r diwedd, dacw'r chwibaniad, ond ni wnaed un sylw o hono; clywid dichon waedd eu cyd-deithwyr, ond nid oeddynt yn ufuddhau. "Digon o amser" meddent "pan fo'r llong yn dechreu symud." Ond tra maent yn siarad dacw'r llong yn cychwyn—yn awr, yn araf, ac yna'n gyflymach, a thrachefn yn gyflymach etto; ac wele'n amlwg bellach, mae'n pellhau oddiwrth y traeth; yn mhellach pellach bob moment. Yn awr, wele'r llercynwyr ffol, mewn ofn mawr, yn taflu eu hunain a'u trysorau i'r mor; mae'r tonau'n rholio drostynt; collir y trysor, golchir ef ymaith; a'r perchenogion a nofiant am eu bywydau. Yn glwyfedig ac yn flin bron hyd angeu, cyrhaeddant y llong o'r diwedd, yn ddrylliog o yspryd megys o gorff,—ymwthiant i fyny ochrau'r llong, yn falch i ymguddio yn y cornelau tywyllaf, lle na chaffai neb eu gweled a'u dirmygu. Ond yr oeddynt wedi cyrhaedd y llong, a hithau a'u cludai yn y blaen dros y moroedd mawrion yn nghyfeiriad y man yr arfaethent fyned iddo.

A pha beth am y pummed dosparth? O, trist yw adrodd! Aeth y rhai hyn yn mhell i ganolbarth yr ynys, gan loddesta ar bob pleserau meddwol, gan wneuthur i'r ynys adsain gyda'u bloeddiadau ynfyd, yn dychrynu hyd y nod yr anifeiliaid gwyllt'on gyda'u castiau penchwiban, a tharfu'r adar gyda'u swn annaearol. Gellid olrhain y ffordd yr aethent wrth y blodeu a'r ffrwythau oeddynt yn ddiystyr wedi eu tynu a'u malurio a'u gwasgar ar bob llaw; a gorweddai crugiau o feini gwerthfawr hwnt ac yma, yn amlwg wedi eu anrheithio o bob twll a chornel, i foddio eu trachwant, a'u crugio i fyny gyda'r bwriad i'w cludo ymaith yn y man.

A phan oedd nwyd pleser ac elw wedi ei gweithio mor derfysglyd, a phan nad oedd pleser ac elw yn gallu rhoddi dim mwyniant mwy—pan oedd y gallu i fwynhau wedi ei lwyr ddileu allan o'u natur,—yna, gan ymlusgo'n araf ac yn ddioglyd, mae eu haelodau blinion parlysedig yn eu cario at y traeth. Ond y llong—beth am y llong? Och! mae wedi hwylio er ys tro. Ac felly eisteddant yn ddiobaith, gan edrych yn synfyfyriol ar draws yr eangfor llydan, gan obeithio yn erbyn gobaith am gael golwg ar yr hwyl nad oedd i ymddangos byth mwy. Ac O fel yr wylent ac yr ocheneidient. Yr oedd ysgrechfeydd y wylan yn gwatwar eu cwynfan a'u galar; a'r ynys, unwaith mor deg iddynt, collodd bob yn ychydig eu holl swynion melus iddynt. Yr oeddynt wedi glanio ynddi ar ddechreu haf, pan oedd yn anterth ei phrydferthwch; ac yn awr yr oedd awelon oerion y gauaf yn fferu'r sudd yn y coedydd, y ffrwythau a'r blodeu wedi diflanu, a'r ffrydiau murmurog ni ddawnsient mwy yn nysgleirdeb yr haul; yr oedd y dyfroedd wedi rhewi.

Yr oedd golwg yr ynys yn awr yn noeth ac erchyll ddigon,—ond noethach ac erchyllach fyth oedd adgno cydwybod y trueiniaid yma. O mor ofnadwy oedd eu hing! Yr oeddynt wedi dirmygu cyngor a rhybudd eu cyfeillion; wedi eu galw yn gowardiaid a ffyliaid, yn benweiniaid digalon a diyspryd; yr oeddynt wedi cau eu clustiau i alwad y cadben; wedi cau eu llygaid i'r signal oedd yn hofran oddiar yr hwylbren; wedi troi eu cefnau ar y llong fel yr oedd yn gadael; wedi

gwawdio a dirmygu eu cyfeillion. Ac yn awr yr oedd yn auaf—yn auaf oddi fewn, ac yn auaf oddi allan. Nid oedd ganddynt yr hyn oedd yn angen i fyw arno, ac yr oeddynt yn ofni marwolaeth, gan fod iddo y fath ddychryniadau iddynt; ac nid oedd ganddynt un gobaith ymwared.

Yn orweddog, yn ddiallu, ymollyngai rhai i lawr i farw o farwolaeth druenus, ac ereill a ddifawyd yn fuanach fyth gan anifeiliaid gwylltion yr ynys; a'u hesgyrn a orweddant etto ar yr ynys, yn rhybudd i bawb fyddant mor ffol â dewis dylyn cyffroadau iselaf eu nwydau gwael.

(I'w barhau).

MARAH.

Er dod i ddyfroedd Marah, a'i dyfroedd chwerw eu blas,
Mae f' Arglwydd i'w pereiddio—melusa hwynt â'i ras;
Lle bynag byddo'm trysor, pob storm yn dawel fydd,
Pob gŵyr a wneir yn union, pob t'wyllwch wneir yn ddydd,

Os cyfyd gwynt tymhestlog, os rhua tonau'r môr,
Mae'r Hwn mae 'ngobaith ynddo a'i enw'n Gadarn Ior;
Yn nghanol pob rhyferthwy, gall Ef ar unrhyw awr
A gair ostegu'r cyfan, a gwneyd tawelwch mawr.

Beth bynag wnelo'n gerbyd pan at ei blant yn dod,
Ai'r gwynt, ai'r tân, ai'r cwmmwl—er lles caiff iddynt fod;
Ac er eu holl amheuon a'u hofnau o bob rhyw,
Efe ei hun sydd ynddo, a digon, digon yw.

Rwy'n cofio'r melus eiriau, caiff pob peth is y nef,
Gydweithio er daioni i'r rhai a'i carant Ef;
Trysorau o ddoethineb i drefnu ynddo sydd,
Trysorau gras a chariad i wneyd pob rhwymau'n rhydd.

Yn holl drallodau bywyd, er dued fyddo'r nen,
Dyogel ydyw'r angor sydd fry tu fewn i'r llen;
Mewn einioes ac mewn angeu, fe ddeil, can's sicr yw,
Ni chollir byth mo'r afael nes myned yno i fyw.

(Y diweddar) Eryron Gwyllt Walia.

Mae y gwirodydd a yfir mewn blwyddyn yn Ffrainc yn 220,000,000 o alwyni. Yn Lloegr, gyda phoblogaeth llawer llai, yfir yn agos i bump gwaith cymmaint, neu rhwng 990,000,000 a 1,100,000,000 o alwyni.

"O FFYDD I FFYDD."

Yr ydym yn byw rhwng dau fyd—byd o bethau gweledig a thymhorol, a byd o bethau anweledig a thragwyddol; y byd ag ydym ni yn cael gafael arno trwy synwyrau, a'r byd ag ydym yn weled trwy ffydd. Yr ydym yn rhodio wrth olwg, ac yn rhodio wrth ffydd. Mae pob un, bob dydd, yn rhodio wrth y ddwy gynneddf hyn.

Mae ffydd yn ffynnon ddofn yn yr enaid, islaw rheswm, islaw gwybodaeth, yn mhell islaw profiad y synwyrau; ac heb arfer ffydd, allem ni ddim byw. Yr ydym yn credu yn sylwedd byd allanol. Yr ydym yn credu nad yw yr haul, y lloer, a'r ser ddim yn ymddangosiadau, ond yn sylweddau; fod coed a blodau, creigiau a'r ddaear, gwyr a gwragedd, yn sylweddau gwirioneddol. Ac etto, wedi'r cyfan, nid yw'r rhai hyn ond darluniau ar *retina* y llygad. A ydych chwi yn meddwl eich bod yn gweled eich cyfaill pan yr ydych yn edrych arno? Dim o gwbl. Y cyfan ag mae'r synwyr corphorol yn ei weled, ac yn ei gario trwy y *nerve* i'r ymenydd, yw darlun a dynir y tu ol i'r llygad. Ac etto, wrth ddweyd hyn, ydych chwi ddim yn amheu am foment eich bod chwi mewn gwirionedd yn edrych ar berson sylweddol tuallan i chwi eich hunan. P'am? Oblegyd yr ydych wedi eich creu i gael ffydd mewn sylwedd islaw pob ymddangosiad. Mae y ffydd hon yn gyffredinol ac yn angenrheidiol. Allem ni ddim gweithredu hebddi. Mae yn ffydd reddfol, gyffredinol, ac angenrheidiol, sydd wedi cael ei rhoddi i bob dyn.

O ffydd i ffydd. O'r ffydd hon mewn sylwedd byd allanol, yr ydym yn tyfu i ffurfiau ereill o ffydd ag ydynt yn ddyfnach, yn eangach, ac yn fwy angerddol. Gymmaint o'n bywyd ni sydd yn dyfod o'r tufewn, ac nid oddiallan.

Y cam nesaf ydym yn gymmeryd trwy ffydd yw ein hyder fod yr holl sylweddau hyn oddiamgylch i ni yn cael eu cadw a'u dal i fyny gan ddeddf ddigyfnewid. Yr ydym yn credu fod deddfau natur yn arosol. Pa reswm sydd gyda ni dros feddwl, pan ddeffrown ni yn y boreu, y cawn ni bethau oddiamgylch i ni yr un fath ag y gadawsom ni nhw y nos o'r blaen; y cawn ni gwrdd â'n teulu, fel arfer, o gylch y bwrdd ar foreufwyd, cael lle ein gorchwyl yn y man lle'r oedd; gwaith bywyd yn myn'd yn mlaen fel yr oedd e' ddoe, y natur ddynol o hyd yr un? Pa reswm sydd gyda ni dros ymddiried y bydd i'n bwyd ein porthi, ac nid i'n gwenwyno; y bydd i'n dillad ein cadwyn wresog? "Am ei bod wedi bod felly bob amser," meddech. Ie; dyna un rheswm. Mae profiad yn troi ffydd yn wybodaeth. Ond mor *fychan* yw ein profiad,—mor fyr yw ein bywyd wrth ei gymharu â thragwyddoldeb. Tu ol, ac islaw y profiad byr hwn o sefydlogrwydd pethau y gorwedd y ffydd reddfol fod Duw yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd; fod ei ddeddfau yn gweithio yn gysson ac yn gywir, heb frys na seibiant; nad oes un mympwy, na damwain, nac annghysson-deb yn y bydysawd. Yr ail gam mewn ffydd yw y sylfaen ar yr hon y gorphwys pob gwyddor; fod holl nerthoedd yn cael eu llywodraethu gan ddeddf ddigyfnewid a thragwyddol; nas gall fod un toriad i

ddeddf naturiol. Nis gellir ystyried hyd y nod gwyrthiau yr Iesu yn doriadau ar ddeddf, ond yn hytrach yn amlygiadau o ddeddfau ereill dyfnach ac uwch na'r rhai ag ydym ni yn gynnefin â nhw. Mae pob cynnydd mewn gwyddor a chelfyddydau yn gynnwysedig mewn datguddiadau newyddion neu gymhwysiadau o ddeddf. 'Doedd dim uwchlaw natur na chroes i natur yn ngweithredoedd rhyfeddol yr Iesu. Rhyw ddiwrnod, efallai, pan fyddo'r hiliogaeth wedi myn'd yn ddigon pell, a phan fyddo genym "wyr perffaith yn Nghrist Iesu," y cyflawnir ei broffwydoliaeth Ef, "Gweithredoedd mwy na hyn a wnewch chwi, o blegyd yr wyf fi yn myned at fy Nhad." 'Dwy I ddim yn credu ein bod ni yn sylwi gymmaint o'n bywyd sydd yn dyfod o'r diriogaeth ddirgelaidd hon o bethau anweledig. Cymmerwch rai enghreifftiau cyfarwydd.

Yr ydym yn rhodio wrth ffydd yn ein serchiadau. Mae genym hyder mewn tad a mam, mewn brodyr a chwiorydd, a chyfeillion. Yr ydym wedi ymwreiddio yn y cariad hwn oddiamgylch i ni. Dyma gartref y galon. Y fath fendith yw fod plant yn tyfu i fyny yn yr awyrgylch hwn o grediniaeth, eu bod yn cymmeryd yn ganiatаol fod eu rhieni a'u cyfeillion yn ddoeth a da; eu bod yn ymbwyso ar y serchiadau hyn, ac yn ddyogel; yn edrych yn ol arnynt mewn amser diweddarach, ac yn porthi eu heneidiau o hyd o dir cyssegredig y fath adgofion.

O ffydd i ffydd. Yn nesaf daw ein ffydd yn y natur ddynol. Mae greddf o ymddiried mewn dyn yn ei gyd-ddyn, heb yr hon ni allasai fod cymdeithas, nac undeb, na gwaith cyffredin. Twyllir dynion yn aml; ond, er hyny, rhaid iddynt gymmeryd yn ganiatаol fod dynion, ar y cyfan, yn gweithredu cyfiawnder, yn dweyd y gwir, ac yn sefyll wrth eu hymrwymiadau. Mae yr holl fyd masnachol yn ymorphwys ar yr ymddiried hon. Un o ddrygau gwaethaf methiantau a thwyll honiadau yw fod y cyfan yma yn tueddu i wanhau ymddiried mawr dyn mewn dyn. Maent fel pe yn cefnogi yr athroniaeth isel hono sy'n dal fod dynion i gyd yn hunangar; fod gan bob dyn ei bris, ac fod y byd hwn wedi cael ei drosglwyddo i afaelion y gwr drwg. Ar yr ochr arall, mae pob gweithred o onestrwydd hunan-aberthol, pob teyrngarwch i egwyddor, pob ymlyniad didwyll wrth gyfiawnder a gwirionedd, yn cryfhau ymddiried dyn mewn dyn. Ac os nad ydym ni yn credu mewn daioni, os nad oes gyda ni ymddiried nad yw dynion, er yn wan ac yn agored i syrthio, ddim yn caru drwg, sut gall neb geisio gwneyd y byd yn well? Y fath ffydd oedd gan yr Iesu yn ngallu moesol dyn pan y dywedodd, "Byddwch chwi yn berffaith, fel mae eich Tad yr Hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith." Y fath *ideal* o ddaioni a ddaliodd Efe a'i apostolion i fyny gerbron y byd, gan gymmeryd yn ganiatаol y byddai i'r byd eu dylyn; ac fe weithiodd eu ffydd mewn dynion ar feddyliau a chalonau dynol i buro, i ddyrchafu, a gwaredu.

O ffydd i ffydd. Mae ymddiried mewn dyn yn ein harwain i hyderu yn Nuw. Y sawl nad oes ganddo ffydd yn ei frawd yr hwn a welodd, sut y gall fod ganddo ffydd yn Nuw, yr Hwn nis gwelodd? Yr ydym

Yr ydym yn esgyn o ffydd i ffydd trwy brofiad amrywiol. Yr ydym yn pasio tuhwnt i anialdiroedd tywodlyd amheuaeth; yr ydym yn ymgodi i uchelderau uwch, ac i weledigaeth eangach.

Y DDAU DDARLUN.

Arluniwr medrus aeth ryw ddydd, i rodio hyd y meusydd;
Dymunai dynu darlun da o rywun perffaith ddedwydd;
Ond nis gallasai weled neb yn profi pur ddedwyddwch,
O dan amrantau'r llona'n fyw fe lechai deigryn tristwch.

Ond cyn myn'd adre gweled wnaeth ryw blentyn bach yn chware,
Gan gasglu blodeu hyd y maes i'w rhoi i'w fam oedd gartre;
'Roedd llonder nwyfus yn ei wedd, a'i lygaid bach yn perlio,
Y serch a lanwai'i enaid bach oedd trwyddynt yn dysgleirio.

"Mae yma'n wir ddedwyddwch pur," medd yr arlunydd celfydd,
"Os dedwydd rhywun dan y nef mae hwn yn ddiau'n ddedwydd;"
Gwnaeth ddarlun tlws o'r plentyn bach, un hynod am ei harddwch,
A rhoes ef yn ei barlwr gwych a galwodd ef "Dedwyddwch."

Yn mhen blynyddau gwelai ddyn yn nhywyll gell y carchar,
Y gwrthddrych truenusa 'rioed a welai ar y ddaear;
Fe dynodd ddarlun teg o hwn a galwodd ef "Trueni,"
Ac fe rhoes hwn wrth ochr y llall fel gellid eu cymharu.

Ond dyma sydd yn fwyaf syn, 'r un oedd y dyn truenus,
A'r bachgen bychan siriol iach fu'n chware gynt mor hapus;
Dechreuodd ddylyn cwmni drwg ac yfed gwin a meddwi,
Nes daeth y bachgen nwyfus llon yn ddrych o ddwfn drueni!

Efelychiad. E.R.

SWYDD CREFYDD.

Mr. Gol,—Pa un ai crefydd sydd yn gwella dyn, neu ynte dyn sydd yn gwella ei hun at grefydd? Mae llawer iawn o grefyddwyr yn credu mai crefydd sydd yn gwella dyn ar y ddaear—mai gwaith crefydd yw gwneyd dyn yn fôd moesol, ac nid eiddo dyn yn cymhwyso ei hun at grefydd. Etto, ceir rhai crefyddwyr yn cymmeryd crefydd fel offeryn yn llaw Duw i gymhwyso dynion at wareiddiad; ond nid felly yr wyf fi yn ystyried crefydd. Mae yr amaethwr yn trin y tir yn yr hwn y mae yn bwriadu hau ei wenith at natur y gwenithyn, ac nid cyfnewid natur y gwenithyn at natur y tir; ac felly yr wyf fi yn

meddwl y dylem ninau wneuthur, sef cyfnewid, a thrin, a thrwsio, a chyfaddasu ein hunain at natur y gwenithyn.

Wrth edrych ar Gristionogaeth y dydd heddyw fel ag y mae yn cael ei hymarferyd trwy y gwahanol ddulliau sydd yn awr, mae yn ddigon i yru dyn yn anffyddiwr, ac i wadu pob peth. Hefyd, y mae edrych ar hanes rhyfel y degwm yn y siroedd isaf yna yn ddigon i oeri yspryd y dyn cryfaf ei ffydd. Gwelwn offeiriaid ar un llaw, ac addysg Crist ar y llaw arall. Dywed yr offeiriad ei fod yn pregethu Efengyl Crist, ac yn feddiannol ar ei yspryd ef. "Car dy gymmydog fel ti dy hun." "Na wrthwynebwch ddrwg; ond pwy bynag a'th darawo ar dy rudd ddehau, tro y llall iddo hefyd. Ac i'r neb a fyno ymgyfreithio â thi a dwyn dy bais, gad iddo dy gochl hefyd." "Gwnewch dda i'r sawl a'ch casant, a gweddiwch dros y rhai a wnel niwed i chwi ac a'ch erlidiant." Dyna addysg yr Iesu, ac nid oes neb yn wir ganlynwr i'r Iesu ond y sawl sydd yn cadw ei orchymynion. Mae lle i ofni mai nifer bychan iawn sydd yn wir ganlynwyr i'r Iesu, ac nid wyf, cofier, yn edrych ar offeiriaid yn unig. Mae llawer o bregethwyr yr Efengyl wedi cael eu gwyngalchu â'r un brwsh. *Arian* yw'r nôd y mae llawer am gyrhaedd ato. Yr wyf yn meddwl fod gweinidogion yr Undodiaid efallai yn well na llawer ar bwnc yr arian. Nid wyf yn adnabod neb o'r gweinidogion yn myned oddiamgylch, gan dalu eu treuliau eu hunain, ond eiddo'r Undodiaid; etto, nid yw yr olaf heb eu beiau. Pe buasai yr arian mawr sydd am bregethu yn cael ei dynu ymaith, a chariad yn unig dâl am y gwaith, ychydig fuasai yn y pwlpud. Mae llawer tad yn myned i gost a thrafferth mawr i ddodi ei fab yn offeiriad. Pa beth yw ei amcan? Ai sicrhau gwir ddedwyddwch nefol i'w fab, neu ynte bywyd esmwyth i fyned trwy'r byd? Gadawaf i'r darllenydd farnu drosto ei hun.

Y mae cyllid (*income*) blynyddol Eglwys Loegr mor agos ag sydd bossibl i £8,000,000, heblaw yr *University Endowment* a'r *Ecclesiastical Commission Funds*. Cynnwysa swyddogion yr Eglwys 2 archesgob yn derbyn y swm blynyddol o £25,000; 31 o esgobion, £145,000; 29 o ddeoniaid, £49,500; 84 o archddeoniaid, £17,500; 105 o ganoniaid, £168,000. Y mae cyllid blynyddol yr Eglwys yn arddangos, ar ol cyfrif pob peth at eu gilydd, tua £266,000,000. Yn awr, onid yw yn wrthun meddwl fod y swm anferthol hwn o arian y wlad yn myned i gynnal un sect allan o 190 sydd yn yr ynys hon, tra mae 189 yn gorfod gofalu a llafurio i gynnal eu hunain? Mae un o'r enw M. Stewart wedi ysgrifenu fel hyn:—"The revenues of the Church of England are derived from three sources:—1st. Incomes from the Church Property and lands confiscated from the Church of Rome at the time of the Reformation. 2nd. Donations and bequests since the Reformation. 3rd. Sale of Church Property and advowsons from time to time. The Church has at various times received special grants from Parliament. The first source, viz., the Confiscated Property from the Church of Rome, is what I will here specially draw attention to. It represents an annual income of £7,000,000, or a capital of £239,750,000. For 300 years the dominant sect in England

has had this powerful weapon. Instead of her being the state church —while the other sects, 189 in number, whose ancestors, in common with the ancestors of the Church of England, were the donors—these funds are self-supporting. The just course to pursue will be to leave the Church of England in possession of the second and third sources of revenue, and to apply the funds arising from the first source to some national reliefs from taxation." J. J., T.

A DDYCHWELANT?

Yn y *Christian Life* am Medi 5ed, 1891, ymddangosodd erthygl hynod iawn, dyfynedig, fodd bynag, o'r *Christian Register*, papyr Undodaidd a gyhoeddir yn yr Amerig. Wedi ei thrwyddedu felly gan ddau bapyr pwysig, dichon na ddangosir anfoddlonrwydd mawr mawr, o herwydd cyfeirio at yr erthygl yn Yr Ymofynydd, hyd y nod os oes rhai o'r darllenwyr cyn guled a'r culaf o fystych Pharaoh. Dyma benawd yr erthygl: "Do they come back?" Fel hyn y dechreua: "Adroddir am James Skene o Rubisland, cyfaill anwyl i Syr Walter Scott, yr hwn a'i goroesodd dros 30 mlynedd, ac a fu farw yn hen iawn, iddo un hwyr ychydig cyn ei farw, tra'n eistedd yn ei ystafell, gael profiad melus iawn. Cafodd ei ferch ef gyda rhyw olwg annhraethadwy o hyfryd ar ei wyneb pan y dywedodd wrthi, "Yr wyf wedi cael pleser mawr: mae Scott wedi bod yma. Daeth o bell ffordd i fy ngweled, ac y mae wedi bod gyda mi yn eistedd yn ymyl y tan, ac yn ymddyddan yn nghylch adgofion melus y gorphenol."

A'r erthygl yn y blaen i ddywedyd ein bod i gyd wedi cael profiadau cyffelyb, rhai fe allai fwy nag unwaith. Wedi rhwygiadau chwerwon oddiwrth hen angorfeydd, daw felly yn ol rhyw felus dangnefedd oddifry, adnewyddiad cymdeithas â'r ymadawedigion. Pwnc rhyfedd ydyw hwn, ac nid ydym yn caru siarad am dano. Gofyna iaith newydd pan geisir son am gymundeb ysprydion; ond credwn rywfodd fod ein hanwyliaid etto yn fyw. Wedi gosod am danynt wisg anweledig, ni ddichon llygad o gnawd eu canfod. Ond y maent y tu arall i'r llen deneu, teimlant ein meddyliau a churiad ein calonau. Mae deddfau'r byd ysprydol yn gyfryw nad gwiw i neb osod nacad ei brofiad ei hun yn erbyn profiad cadarnhaol ereill.

Nid dyben y llinellau canlynol ydyw amheu na chadarnhau y sylwadau uchod, ond yn hytrach i roddi adroddiad o hanesyn a wnaeth argraff annileadwy ar feddwl yr ysgrifenydd.

Yn ystod rhai misoedd yn canlyn Haf y flwyddyn 1862, arferwn dalu ymweliad rheolaidd â hen wraig oedd "yn nesu at ymyl y dwr," ac am yr hon y ceir cofnod yn Yr Ymofynydd am 1863, tudal. 27. Yr oedd yn wraig o gynneddfau cryfion hwnt i'r cyffredin. Heb fedru darllen dim ond ychydig Gymraeg, meddai sylw craffus a chof gafaelus; ac yr oedd yn bleser gan bawb glywed ei sylwadau tarawiadol a

gwreiddiol ar wahanol bynciau o ddyddordeb. Hoffai yn fawr olrhain doethineb y Crewr yn ngwaith ei law, a'i ofal a'i gariad ar hyd llinellau annysgwyliadau i'r mwyafrif o blant dynion. Yr oedd yn ddiamheu wedi gwrandaw ar lawer o bregethau, ac ymddangosai fel yn gyfarwydd â llawer o ymresymiadau Paley yn ei *Natural Theology*. Sicr yw nas gallasai ei hunan eu darllen yn Paley, ond yr oeddynt gyda hi yn amlwg, ac yr oedd yn gallu eu cario i diriogaethau newyddion. Dyoddefodd gystudd hir a thrwm, ond fel un yn gweled yr Anweledig.

Un tro pan y bum ar ymweliad â hi, adroddodd i mi hanes

Y WELEDIGAETH HYNOD

a adawodd y fath argraff ddofn ar fy meddwl fel y mae mor fyw heddyw a'r dydd yr adroddwyd ef gyntaf. Wedi i mi fyned i mewn ac eistedd, dechreuodd adrodd i mi ei phrofiad. Yr oedd yn eistedd fel arfer yn ymyl y tân pan y daeth hen gyfaill i mewn. Ni wyddai, meddai, yn gywir sefyllfa ei meddwl, pa un a oedd yn cysgu neu yn rhyw hanner cysgu, pa un ai breuddwyd neu weledigaeth neu beth oedd. Ond ymddangosai y cwbl iddi yn sylweddol iawn. Yr oedd y cyfaill wedi marw er's blynyddoedd, ond wele ef yn awr iddi hi yn fyw, yn ol tystiolaeth pob gallu oedd ganddi hi i farnu. Wedi ei wahodd i'r gadair gerllaw, dechreuodd yr ymddyddan. Mewn ateb i'r gofyniad sut yr oedd hi, dywedodd canolig, canolig.

G.—Sut ydych chi'n teimlo yn nghylch y dyfodol ?

A.—'Dyw e'n blino dim o hono I.

G.—A oes arnoch chi ddim ofan marw ?

A.—Nag oes arna' I'n siwr ddim ofan marw.

G.—Beth, oes arnoch chi ddim ofan uffern ?

A.—Nag oes arna' I ddim tamed o ofan uffern.

G.—Oes arnoch chi whant myned i'r nefoedd ?

A.—Nag oes arna' I ; 'dwy I'n blino dim yn ei gylch.

G.—Beth, menyw od ydych chi. Oes arnoch chi ddim ofan uffern na whant nefoedd. Wy'n deall dim o honoch. 'Newch chi sponio ?

A.—Wel, fel hyn. 'Rwy'n credu yn y Tad goreu. Wnaiff e' ddim cam â fi. Wnaeth e' gam â neb erioed. Mae e'n well na fi, mae yn gallach na fi. 'Rwy'n sicr o gael oddiar ei law ef yr hyn fydd yn oreu er fy lles. Os nad w I'n ffit i fyn'd i'r nefoedd, ydw I ddim am fyn'd yno. Mi ga I fyn'd lle rwy'n ffit i fyn'd. Pe cawswn I fyn'd i'r nefoedd cyn mod I'n ffit i fyn'd i'r nefoedd, f'aswn I ddim yn hapus. Pan fyddw i'n ffit i f'ynd i'r nefoedd, mi ga I fyn'd i'r nefoedd. Mae genyf fi berffaith hyder yn y Tad nefol y gwnaiff e o hyd yr hyn fydd er fy lles uchaf. A phaham wedi'n yr af i flino a grwgnach yn ei gylch ?

Pwy nad all lai nag edmygu yspryd tawel ac ymostyngiad hytryd yr hen wraig dduwiol hon ? Onid ydym yn cael yma berffeithrwydd y teimlad Cristionogol ? Ni ddymunaf fi ddim yn well i mi fy hun na meddiannu teimlad cyffelyb pan ddelo'r welw awr olaf.

O.M.H.

RALPH DE LYLE.*

ADOLYGIAD.

Da genym gwrdd etto ag awdwr "John Jones yn yr Ysgol" ac "Hanes Plwyf Trefdraeth," am ei fod yn gweithio mewn maes y bydd yn rhy ddiweddar i weithio ynddo yn fuan iawn. Mae ei bwnc yn dyfod i fwy o sylw dysgedigion bob dydd. I'r meddwl anniwylliedig y mae hanesion o'r fath yma yn ddiwerth, yn ddim gwell na ffwlbri; ond i ddosparth o fyfyrwyr sydd yn cynnyddu yn barhaus mewn rhif, ceir yma faes toreithiog, lle y gwelir dull gweithrediad y meddwl dynol yn ei gyfnod boreu. Wrth efrydu y bywyd anifeilaidd, nid ydys heddyw yn cyfyngu'r sylw at y dadblygiadau uwch, ond rhoddir sylw arbenig at yr abwydyn, y broga, &c. Ni ellir iawn esponio y naill heb efrydiaeth manwl o'r llall. Mae yn hen ddywediad mai'r plentyn yw tad y dyn. Felly, efrydir y plentyn heddyw yn ogystal a'r dyn. Cyhoeddodd Darwin lyfr ar chwe' mis cyntaf un o'i fabanod ei hunan, a llyfr dyddorol iawn yw. Ar gyffelyb gyfrif y dybyna gwerth gweddillion boreuol hanes pob cenedl. Helpiant ni i olrhain, ac i ryw raddau i weled a deall llinell ein dadblygiad. Pan y gwelwn ni gyffelyb arferion mewn gwledydd pell oddiwrth eu gilydd, mae yn ddyddorol ceisio olrhain y rheswm o honynt. Yn "Ngwyr Sigowt" ein priodasau Cymreig cawn weddill o arferiad a geir mewn llawer hinsawdd, er yn naturiol yn amrywio yn fawr. Cyffyrddir â llawer o hen arferion ein tadau yn llyfr Mr. Jones, megys y rhai a awgrymir yn y Gaseg Fedi, y Neithior, y Gwyntyn, neu y Chwintin, Cawl Awst, &c. Cofiwn hanesyn am Ffair fach yr Haf yn Llanybyther. Fel yr awgrymir yn "Ralphe de Lyle," rhoddid cychwyniad i lawer o bethau pwysig dan gysgod y pebyll yn y ffair, a phenderfynid materion pell-gyrhaeddol. Yr oedd gan bron pob Sion ei Sian yn pwyso ar ei lin, ac aberthai lawer i ddangos iddi beth allai; ac ar ol tipyn o ddiod fregyn y Cwrt neu y Lion, delai ei galon yn hael a'i dafod yn llithrig, ac yn y farn nad yw yn iawn colli llong er mwyn arbed ceiniogwerth o *bitch*, clywir Sion yn gwaeddi eto am y drydedd waith feallai, "Llenwch werth dimai o gawl eto, dim uws arbed cost lle bo cariad." Cyfeiria Mr. Jones at Wyr y Sigowt fel gwyr y *seek out*, y bechgyn a elent i geisio am y ferch ieuanc. Yr ydym wedi gweled yr esponiad a awgrymir yn y ffurf Seisnig o'r blaen, a gall fod yr esponiad yn iawn, er yr ymddengys i mi fod y ffurf Seisnig yn amheus. Gwell genyf fi gredu fod yr ymadrodd o darddiad Cymreig. er nad oes genyf yr un dychymyg beth all y ffurf gwreiddiol fod, Desgrifia Meyrick hwy yn ei "History of Cardigan," p. cxl., fel

---

* Ralph de Lyle: neu helyntion Pendernyn: sef ffughanesyn yn gosod allan y dull o garu, priodi, ofergredu, a byw a arferid driugain mlynedd yn ol, mewn ardal wledig Gymreig, gan y Parch. Evan Jones, B.D., Periglor Trefdraeth, Penfro. Williams, Solfach, 1891. Pris 6c.; 57 tdd.

"gwyr o wisgi oed," yr hwn sydd mor *far-fetched* ac mor anhebygol a'r llall.

Bydd llyfr Mr. Jones o ddyddordeb i'r Cymry cyffredin, ond yn neillduol felly i Gymry Pencareg a Llanbedr, gan y bydd pob caracter yn y llyfr yn hawdd ei spotio allan ganddynt hwy. Gobeithiwn y ca'r awdwr werthiad buan. T. C. U.

NODYNAU GWASGAROG.

Mr. Gol.—Yr wyf yn ddiolchgar i'm cyfaill J.J., T., am ei erthyglau yn awr ac yn y man yn Yr Ymofynydd, ac hyd y nod am ei erthygl yn y rhifyn diweddaf, sylfaenedig ar dystiolaeth cyhuddwyr y brodyr yn Llandyssul. Nis gallasai J.J., T., alw mewn dau dy llawnach o newyddion o bob math nag eiddo Mr. T. C. Davies a Mr. T. Lewis, er nad wyf yn sicr eu bod yn gredadwy bob amser. Pob parch i'r ddau wr boneddig serch hyny.

"*Split* yn y Gymdeithas Ryddfrydol, ac yn yr ysprydol hefyd." Wel, mae yn debyg fod rhai personau siomedig yn ymdrechu gwneuthur rhwyg, ond nid wyf yn credu y bydd i'w mwstwr effeithio rhyw lawer o niwed i unrhyw achos. Gwell cael gwared o ddynion na allant gydfyw yn heddychol ag ereill mewn cymdeithas oddieithr iddynt gael eu ffordd eu hunain yn mhob peth. Dynion hunanol, a hollwybodol yn eu tyb eu hunain, ydynt yn bla lle bynag y cyfarfyddir à hwynt.

"Y gweinidogion i gyd yn Llandyssul wedi troi yn Doriaid." Hyny yw, feddyliaf, y maent yn Doriaid o herwydd nad ydynt yn Rhyddfrydwyr yn ol pwysau a mesur Mr. T. C. Davies a Mr. T. Lewis, yn y rhai y mae yspryd Rhyddfrydiaeth ddigymmysg wedi ymgnawdoli, os coeliwch chwi hwy. Y mae'r gweinidogion ereill yn abl i ateb drostynt eu hunain, ond am danaf fy hun dywedaf fy mod yn awr, o ran fy egwyddorion politicaidd, yr un ag a oeddwn er's mwy na deugain mlynedd yn ol; a dywedaf yn mhellach mai Tori ydwyf os mai egwyddorion y ddau foneddwr uchod ydynt safon Rhyddfrydiaeth plwyf Llandyssul.

"Mae yr Undodiaid yn pregethu llawer mai wrth eu ffrwythau yr adnabyddir hwynt." Rheol iawn yw hon, a dyger nid yn unig y gweinidogion, ond Mr. T. C. Davies a Mr. T. Lewis hefyd i'r prawf, ac yna ceir gweled pwy sydd Doriaid, a llawer o bethau ereill.

"Yr Undodiaid yn lleihau yn Llandyssul." Pa un a ydynt yn lleihau ai peidio, nis gwn; ond os ydynt ar hyn o bryd, nid yn y blaid Undodaidd yn unig y gwelir trai a llanw. Ychydig help i gynnydd Undodiaeth mewn un man yw dynion sydd yn gyhuddwyr y brodyr.

"Nad yw llawer o honynt (yr Undodiaid yn Llandyssul) yn derbyn Yr Ymofynydd yn awr." Dywedwyd wrthyf mai dim ond Mr. T. C. Davies a Mr. T. Lewis sydd wedi rhoi heibio ei dderbyn. Nid rhyw golled fawr yw hyny.

"Os yw hyn yn wir—nis gwn a ydyw hyny yn wirionedd," meddai fy nghyfaill J.J., T., yn golygu y cyhuddiadau yn erbyn yr Undodiaid a glywodd yn Llandyssul o enau Mr. T. C. Davies a Mr. T. Lewis. Ië, yr oedd amheuaeth yn meddwl J.J., T. Wel, Mr. Gol., nid oes dim yn fy meddwl I.

Gwn na all Mr. Davies na Mr. Lewis ysgrifenu llythyr i'r Ymofynydd, ond os bydd eu clerc yn ysgrifenu drostynt, gofalwch fynu ei enw priodol wrth ei lythyr.—Yr eiddoch, &c.,

Medi 14, 1891. Thos. Thomas.

TYBACO.

Och! wenwyn, nis myn y moch—ei brofi
Er brafied eu cilfoch;
Tra myn y bechgyn bochgoch,
O'r llawn di-fudd roi llon'd y foch.—*Dewi Hafhesp.*

FFROENI HERESI AC ERLID.

Mae y Proffeswr Henry Jones, o Brifysgol Bangor, newydd gyhoeddi llyfr ar Browning, y bardd Seisnig, a'i farddoniaeth, sydd wedi tynu sylw a chymmeradwyaeth cyffredinol y wasg Seisnig; ond yr ydym ni yn Nghymru, mae'n debyg, yn gwybod gwell. Ei genedl a'i waed ei hunan sydd wedi ffroeni'r heresi; y *Goleuad*, papyr ei enwad ei hunan, sydd yn arwain yr erlidigaeth. 'Does yn y llyfr, mae'n debyg, ddim son am yr Iawn, na'i eisieu. Anwybyddir y cynllun cadw, a gwneir yn ddiangen y pwnc sydd yn destyn cynnifer o bregethau yn Nghymru; a gosodir mwy o bwys ar *ein bod* yn gyfiawn, nag ar *ein cyfrif* yn gyfiawn. A gwaeth na'r cwbl, awgrymir fod y Proffeswr Jones yn unfarn â phrif wyddonwyr y dydd yn mherthynas i'r pwnc a gyssylltir ag enw Darwin!

S.N.S.

"Y GENINEN" A'R UNDODIAID.

Gan fod gyda ni fel cenedl gylchgrawn anenwadol wedi dod allan er's blynyddau bellach, ac fod y rhan fwyaf o'r gwahanol enwadau wedi ysgrifenu iddo ar eu hegwyddorion gwahaniaethol, megys, Paham yr wyf yn Annybynwr neu Fedyddiwr, &c., a fyddai yn ormod i ofyn i Mr. W. James, Llandyssul, neu rhywun galluog arall, barotoi papyr ar y Paham yr wyf yn Undodwr? neu rywbeth tebyg, a'i ddanfon i mewn i'r *Geninen*. Y mae lle i ofni fod dysgawdwyr yr enwad Undodaidd Cymreig yn rhy ddifater gyda golwg ar y pwys mawr o roddi digon o gyhoeddusrwydd i'w daliadau. Gobeithiaf y gwneir defnydd o'r awgrymiad bychan, ond pwysig, hwn ar frys.

N.

CYNGHOR.

Dos, yf yr awyr iach, po fwyaf, goreu fyddi;
Dylyna ddeddfau'r byd, neu Natur, hyd y gelli;
Gad i'r doctoriaid fyn'd mor bell a'r Bae o Bisci,
A gochel dithau'r *gin*, y brandi, rum, a'r whisci.

Ymarfer corff sydd dda, a chadw i fyny'r yspryd;
Paid byth a myn'd i gwrdd ag unrhyw fath o ofid;
A byt y symlaf fwyd, ac yf y dyfroedd gloywaf,
Ac yna, byddi iach, neu dylit fod, o leiaf.

C. F.

GEIRIAU ATHROD.

Daeth boneddiges un tro at y tad Philip Neri, gan gyhuddo ei hun o fod yn athrodydd. "A ydych yn fynych yn syrthio i'r bai hwn?" ebe fe. "Ydwyf, yn fynych iawn," ebe hi'n edifeiriol "Fy mhlentyn anwyl," ebe Philip "mae eich bai yn fawr, ond mae trugaredd Duw yn fwy; er mwyn penyd, gwnewch fel hyn: Ewch i'r farchnad a phrynwch lwdn giar, newydd ei lladd, a'i phluf arni; ac yna ewch rhagoch yn plufio'r aderyn wrth fyned yn y blaen. Wedi gorphen eich taith, dychwelwch ataf fi." Aeth i'r farchnad, a gwnaeth yn ol fel y gorchymynasid hi, a dychwelodd, gan geisio esponiad. "Ah," ebe Philip, "buoch ffyddlon iawn yn y rhan gyntaf. Yn awr, cyflawnwch yr ail ran, a gwellheir chwi o'ch gwendid. Ewch yn ol ffordd y daethoch, a chasglwch y pluf bob yn un." "Ond dad," ebe hi, "taflais y pluf yn ddiystyr ar bob llaw; a chludodd y gwynt hwy yn mhob cyfeiriad. Pa fodd y gallaf gael o hyd iddynt?" "Wel, fy mhlentyn," ebe yntau, "felly y mae gyda geiriau athrod; fel y pluf a wasgarwyd gan y gwynt, maent wedi eu cludo mewn llawer cyfeiriad. Galw hwy yn ol yn awr, os gelli. Dos, ac na phecha mwyach."

Y PRYF COPYN.

O'i fola nydda'n filain—ar redeg
Gwna rwydi dirgelfain;
Gwea'i oriel yn gywrain,
A'i dŷ fydd ei ede fain.—*Ioan Pedr.*

Y DRINDOD.

Gymmaint o ofid a thrafferth diangen y mae syniadau cyfeiliornus wedi achosi yn y byd. Gymmaint o erlid sydd wedi bod yn ein byd ni o herwydd pwnc y drindod yma Mor fain ac mor fychan yw y

sylfaen ar yr hwn yr ydys wedi codi adeilad mor fawr. Pe buasai credu mewn Trindod yn angenrheidiol i iachawdwriaeth, gallesid gweled y profion yn amlwg ac yn lluosog. Ond pa le ceir un—dim ond un prawf diamwys. Ebe'r dysgedig a'r duwiol Deon Mozley: "Yr wyf yn gofyn gyda phob gonestrwydd pa le mae'r meddyliddrych o Driawd (*Threeness*) yn cael ei osod allan yn y Testament Newydd; pa le mae'r Duw Tri-un yn cael ei ddal i fyny i'w addoli, i'w garu, ac i ufuddhau iddo? Yr wyf yn gofyn y cwestiynau pan yn teimlo fy hun ar drothwy'r bedd, ac yn fuan i ymddangos gerbron gorsedd pob gwir." Nid oes yr un i'w chael, Dr. Mozley, ond 1 Ioan v. 7, ac y mae hono yn ddiseremoni wedi ei bwrw allan o'r cyfieithad diwygiedig fel *forgery*, er fod dynion anonest yn parhau i wneuthur defnydd o honi. Q. Q.

CANMOLWCH EICH GWRAIG, Y DYN.

Er mwyn trugaredd ac er mwyn tosturi, rhoddwch air o anogaeth i'ch gwraig. Peidiwch ofni, wnaiff hyny un niwed iddi. Mae wedi gwneuthur eich cartref yn gysurus, eich aelwyd yn ddysglaer, a'ch bwyd yn flasus, er mwyn trugaredd, diolchwch iddi, os na ellwch wneuthur dim rhagor. Ni fydd yn ei ddysgwyl. Pair i w llygaid agor yn lletach nag y maent wedi gwneuthur er ys dwy flynedd, ond fe wnaiff les iddi hi, a lles i chwithau hefyd. Mae llawer o fenywod heddyw ydynt yn sychedig am air o ganmoliaeth, am dipyn bach o anogaeth. Trwy wres yr haf, trwy ludded y gauaf, maent wedi slafo yn ddirwgnach, ac y mae eu brodyr, eu tadau, a'u gwyr eu hunain wedi dyfod mor gynefin â'u llafur unffurfiol ac undonol fel y cadwant yn edrych arnynt ac yn dysgwyl oddiwrthynt fel yr edrychant am godiad dyddiol yr haul a'i fachludiad. Gellid gwneuthur cartref bob dydd yn fwy prydferth trwy werthfawrogiad priodol o'i sancteiddrwydd.
W. M.

BETH WEDODD E, MABON?

Aml i dafod a glywyd yn gofyn yn yr wyl fawr Eisteddfodol yn Abertawe yn mis Awst, Beth wedodd e, Mabon? Ambell waith fe holid o speng feallai, ond yn fynychach dybiaf o ddiffyg medru y Saesneg sydd yn awr bron wedi cwbl feddianu llwyfan yr Eisteddfod. Pa hyd y gwnaiff dyrnaid o blant D. S. Dafydd felly insultio prif noddwyr yr Eisteddfod? Cymry yw y miloedd geir yno, ac nid yw plant Alis a phlant Dic gyda'u gilydd i'w rhifo ond wrth y degau; ond eu bod yn fwy ymhongar, ac o ganlyniad yn ymwthio i r ffrynt. Hwy sydd a'r awenau yn eu dwylaw. Ond paham y rhaid i bethau fod felly? Beth yw'r balchder dinystriol yma sydd wedi ein meddianu yn mhob cyfeiriad? Yr wyf yn dywedyd dinystriol yn fwriadol. Gyda phob parch dyladwy i'r Sais a'i Saesneg, dylai pob Cymro gofio ei fod yn Gymro yn gyntaf peth, ac yn Sais os myn yn ail, a pheth

myno yn 3ydd ac yn 4ydd. Dyma'r unig ffordd iddo sicrhau ei iawnderau. Pwy sydd yn llanw holl swyddau pwysig ein gwlad? Onid Saeson? A phaham? Ymddengys i mi fod yn well gan Sion Gymro weled rhyw dalp o Sais unieithog (cofier hyn) yn mwynhau holl lecynau gwyrddion ein maesydd cymdeithasol na gweled Twmi ei frawd yn y mwyniant o'r un. A phaham? Beth ydyw'r yspryd cenfigen yma sydd yn rhwystro'r Cymro i ymlawenychu yn nyrchafiad Cymro? Fe gapia, fe fowia i bob *upstart* o Sais, a hyny yn fynych pan nad yw yn deilwng i ddal canwyll mewn gwybodaeth a medr i Twmi. Gwarth a chywilydd bythol fyddo ar benau plant Dic, ac eled yr yspryd cenedlaethol sydd eisoes yn codi ac yn edrych at iawnderau ein pobl a'n tras ein hunain ar gynydd yn ein plith. Dylai gwybodaeth o'r Gymraeg fod yn un o'r anhebgorion i ddal pob swydd yn Nghymru. Pob chwareu teg wrth gwrs i'r Sais, a phan ddysgo Gymraeg, rhodder iddo yr un siawns ag ereill; ond yn Nghymru, myner gwybodaeth o'r ddwy iaith. Yn ngheiriau Ceiriog, Dysgwch y ddwy. Pa synwyr hefyd sydd mewn Sais yn treulio ei ugain mlynedd yn ein plith, ac wedi'r cwbl heb fedru y Gymraeg. Mae yn insult i'n gwlad ac i'w thrigolion. Pe gwnelai gyffelyb yn Ffrainc neu yr Almaen, fe'i hwtid allan o gymdeithas. Edrychwn ein bod bawb, bob amser, tra'n gwneuthur pob ymgais i feistroli iaith a llenyddiaeth Sion Ben Tarw (John Bull) yn cadw mewn bri dyladwy yr iaith a ddysgasom ar aelwyd ein rhieni. Q. Q.

EGLWYS GELLIONEN.

Da genyf gael ar ddeall fod y brodyr da yn Ngellionen o'r diwedd yn dechreu dadebru o gwsg hirfaith a diffrwyth, ac wedi meithrin digon o wroldeb i ddyfod i'r maes, a gwneyd rhyw gymmaint o aberth dros yr egwyddorion a broffesant. Y maent erbyn heddyw wedi dod i'r penderfyniad fod capel newydd yn anhebgorol angenrheidiol yn nghymmydogaeth Trebanos, a bwriadant weithredu i'r perwyl hwnw. Diamheu genyf pe buasent wedi gwneyd hyny flynyddau yn ol, y byddai yr aelodau erbyn heddyw yn rhifo eu cannoedd, ac na chollasent y degau o'r plant ag sydd erbyn heddyw wedi myned i feusydd ereill; ond gwell hwyr na hwyrach. Tafler pob rhwystr dros y bwrdd. Ymaith â phob croes awelon; ymafler yn y gwaith yn ddewr, yn unol, ac yn benderfynol. Y mae yr hen egwyddorion yn rhy bur i'w hesgeuluso tra mae cymmaint o lygredigaeth athrawiaethol yn cael ei lledaenu yn mysg ein cenedl y dydd heddyw. Wedi eu cynhyrfu gan y ffaith anwadadwy hon, nis boddlonir hwynt i edrych arnynt eu hunain fel proffeswyr oer a difywyd, tra mae'r frwydr ofnadwy rhwng cyfiawnder ac annghyfiawnder, rhwng twyll a gwirionedd, i gael ei hymladd ar esgynlawr pob enaid byw.

Gan fod yr ysgrifenydd yn teimlo dyddordeb mawr yn mhrif ddaliadau crefyddol yr Undodiaid, ac hefyd yn byw yn y cwm, bydd yn bleser o'r mwyaf ganddo danysgrifio *pum' punt* tuag at y *Building Fund.*

Hyderaf y bydd i'r gyfran fechan hon dueddu lluaws etto i wneyd llawer mwy, os yn bossibl. Arwyddair pob bywyd ddylai fod, "Yr hyn a allodd hon hi a'i gwnaeth."—Yr eiddoch y tro hwn,

NICODEMUS.

O.Y.—Gobeithiaf y gwel y brodyr eu ffordd yn glir i gael y capel newydd ar ochr y ffordd fawr, ac nid i fyny ar y graig, er rhoddi digon o gyhoeddusrwydd, yn nghyd â chyfleusderau i ddyeithriaid y pentref.

Onid yw'n rhyfedd fel y mae dynion yn gwahaniaethu braidd ar bob pwnc y gallwn ddychymygu am dano! Un o'r pethau rhyfeddaf y gwyddom ni am dano yw y gwahanol feddyliau goleddir gyda golwg ar y gwr goreu i gadw ennillion y gweithiwr. Gwyddom am luaws a gredant nad oes neb cystal a'r tafarnwr, ac felly tyrant ato'n lluoedd, gyda'u hennillion gweithfawr, heb holi dim am y telerau, y llog, a'r possiblrwydd o'u cael yn ol pan fo eisieu. Tybia ychydig mai lle dyogel i gadw ennillion yw y Post Office. Derbynir yno ychydig bach ar y tro, a cheir cydnabyddiaeth am yr oll, a gellir eu codi ar rybudd byr. Mae y dyn ei hunan yn berchen ar yr arian pan fyddo yn y Post Office. Cynllun da yn ngolwg ereill yw suddo'r ennillion mewn *insurance*. A lle da arall yw y *Bank*. Ceir yno log ar yr arian ac fe'i cedwir yn ddyogel i'r perchenog. Y pwnc pwysig gyda golwg ar ennillion yw eu *hinvesto* mewn rhyw ffordd fel y gellir eu cael yn ol pan fo eisieu.

DAFYDD Y GOF.

DAVID DAVIES, neu Dafydd y Gof, Pencarreg, yn 69 oed. Bu farw ar y 29ain o fis Gorphenaf diweddaf, mewn *fit*, yn yr hwyr, oddeutu deg o'r gloch, pan yn eistedd wrth y tân yn darllen. Yr oedd wedi cael ei flino am flynyddau gan y fogfa, ac o hon y bu farw. Claddwyd ef y dydd Mercher canlynol yn mynwent Pencarreg, yn ochr ei dad a'i fam, ac yn ngwydd llawer o'i gymmydogion a'i hen gyfeillion a ddaethant yn nghyd i'w osod yn y bedd.

Fel y sylwyd wrth y drws, cyn ymadael i'r fynwent, nid i osod dyn cyffredin yn y llwch y daethpwyd yn nghyd, ond un o alluoedd a chynneddfau uwch na'r cyffredin. Pe cawsai Dafydd yn moreu ei fywyd fanteision dysgeidiaeth, fel llawer, yn ddiamheu y safasai yn dra uchel yn mhlith enwogion Cymru. Ond nid felly y bu. Ni chafodd Dafydd hyd y nod awr o ysgol erioed. Gorfu arno weithio i ennill ei fwyd bron cynted ag y gallodd gerdded. Y modd y dysgodd ddarllen oedd trwy ddal sylw ar enwau lleoedd, a phethau cyffelyb, mewn biliau ocsiwnau ar fonau coedydd a physt llidiardau ar ochrau

y ffyrdd. Fel hyn y dysgodd i adnabod y llythyrenau Cymreig, ac i'w gosod wrth eu gilydd i ffurfio geiriau. Fel hyn, trwy ddiwydrwydd diflino y daeth i ddarllen Cymraeg, a pheth Saesneg, yn dra rhwydd. Lle mae ewyllys y mae ffordd. Er na chafodd fanteision cyfoeth ac addysg, yr oedd yr hen fam fawr, *Dame Nature*, ag na ffafria y boneddig yn fwy na'r gwreng, wedi bod yn dra hael iddo. Gwelodd fod yn dda i gyfranu iddo ran o'i thrysorau gwerthfawrocaf. Doniodd ef à galluoedd meddyliol cryf, a chof gafaelus tu hwnt i'r cyffredin. Gallasai Dafydd adrodd yn rhwydd, fel y dywedir, ar ei dafod beth bynag a ddarllenai neu a glywai, a hyny air yn ngair, heb fawr drafel. Yr oedd ei gof mor gadarn a *grip* ei *vice*. Ië, rhodd werthfawr yw cof da. Nid oes dim yn well i ddyn na hon, ac yn enwedig os y bydd i ymddybynu am ei ddefnyddioldeb yn y byd ar alluoedd ei enaid. Mae y dyn sydd berchen ar gof gafaelus a bywiog yn sicr o wneyd ei nod beth bynag fyddo ei alwedigaeth, neu yn mha gylch bynag fyddo yn troi, doniau ereill, wrth gwrs, yn gyfatebol. Y fath oedd cof Dafydd fel y gallasai adrodd ar ei dafod y rhan fwyaf o'r beirdd Cymreig, heu a diweddar, fel yr oedd yn bleser i bawb o'r un archwaeth fod yn ei gwmpni. Ei *favrites*, er hyny, oedd yr hen fardd o Landdyfri a Lewis Glyncothi. Canai yn fynych yr awdl ardderchog i Gwenlluan, merch dlos Rhys ap Dafydd, y marchog o Lanhen, yn y pymthegfed canrif, os nad wyf yn annghofio, lle y treuliai y bardd lawer o'i amser. Mynych hefyd y canai Dafydd waith yr hen Ficer, yn enwedig pan yn desgrifio buchedd annheilwng offeiriaid Cymru yn ei oes. Pan yn cwafro rhai o'r caneuon digrif o'i storws ddiddyspydd cadwai y cwmpeini mewn *roar* o chwerthin. Gwnelai bryd arall iddynt edrych yn dra thrist. Pryd bynag y byddai cynnulliad llawen yn y gymmydogaeth yr oedd yn rhaid cael Dafydd y Gof yn eu plith, a hyny weithiau, efallai, yn rhy fynych ar ei les ei hunan.

Nid yn fynych, hefyd, y cyfarfyddid ag un a feddai well archwaeth at henafiaethau Cymru, a hen hanesiaeth p'un ai Cymru neu Loegr. Nid oes nemawr o hen gestyll yn ein gwlad na fu Dafydd yn ymweled â hwynt rywbryd neu gilydd. Pleser nid bychan oedd ganddo hefyd i weled meusydd lle yr ymladdwyd brwydrau rhai o'r hen dywysogion, neu ryw le a enwogwyd yn yr hen amseroedd. Trawodd hi unwaith, heb wybod i neb, tua glan y môr yn Sir Aberteifi, i weled Llwyndafydd, o herwydd y chwedl fod y gwely i'w weled yno ar yr hwn y cysgodd y Duke of Richmond pan ar ei daith o Milford Haven trwy ganol Cymru i Shrewsbury i gyfarfod Richard y Trydydd, yn 1485, ar faes y gwaed yn Bosworth, lle y gosodwyd coron Richard ar ben Richmond, dan yr enw Harri y Seithfed. Gyda Dafydd y cafodd yr ysgrifenydd y desgrifiad goreu o *fonument* Edward Williams (Iolo Morganwg) yn eglwys Treflemin. Nid annghofia wên Dafydd pan yn adrodd y sylw wnaeth hen wreigan a welodd yn nhafarn y pentref—"Yr ont yn deud fod rhywbeth yn hynod yn Nedi." Unwaith, pan yn pasio trwy Bedford ar ol da, yr oedd yn rhaid iddo fyned i'r carchar i wel'd y gell yn yr hon y cyfansoddodd John Bunyan ei anfarwol waith, *Taith y Pererin*. Desgrifiai y gell hono yn fynych â

nodau o waith llaw Bunyan ar y wal. Fflachiai ei lygaid gan ddigofaint wrth feddwl fod dyn mor dda wedi cael ei garcharu gan offeiriaid yr Eglwys Sefydledig am ei fod yn Ymneillduwr. "Ond beth dâl siarad," meddai, "trwy gyfryngdod esgob, yn y diwedd, y cafodd Bunyan ei ryddid."

Celai bleser mawr i wneyd casgliad o hen bethau hynod. Yr oedd *museum* fechan yn ei dy unwaith, ond collodd lawer trwy roddi eu benthyg i hwn a'r llall a annghofient ddod a hwy yn ol. Mae dynion o'r fath yn fynych yn benthyca llyfrau. Yn *museum* Dafydd yr oedd llawer o bethau hynod a rhy faith i'w henwi. Cynnwysai gatiau o grochan pridd oddeutu dwy fil a hanner oed, a gafwyd dan garn o gerryg yn y gymmydogaeth. Arferai yr hen Frytaniaid yr amser hwnw losgi, ac nid claddu, cyrff eu meirw, a gosodent y lludw mewn crochan pridd a charn fawr o gerryg arno. Catiau un o'r crochanau hyn oedd gan Dafydd, wedi ei gael dan garn yn y gymmydogaeth. Cafodd ei dori gan y gweithwyr cyn i Dafydd gael gwybod am dano. Yr oedd yn wastad yn cwyno am hyn. Cynnwysai y *museum* hefyd un neu ddwy o hen fwleti Cromwell, a gafwyd yn Aberpergwm, Glynnedd. Ar ol y frwydr ger Caerdydd, danfonwyd gan *officers* Cromwell fintei oedd bychain o filwyr yma a thraw ar hyd y wlad i ladd *Royalists*, ac i ddystrywio eu meddiannau, a *Royalist* oedd yn Aberpergwm. Cafwyd y bwleti mewn cnwc gerllaw y ty. Gellid gweled hefyd yn *museum* Dafydd un o feini melinau llaw Cymru cyn dyfeisio melinau dwr. Gwaddon clocsen o waun Maesisa. Y peth hynotaf yn y waddon oedd pinau coed yn y waldas, yr hyn a brofai fod y waddon yn hen. Meddwl rhai oedd mai clocsen rhyw Rufeiniad oedd wedi ei thaflu i'r gors o Sarn Helen ar bwys. Hen china, swllt y Frenines Bess, a llawer iawn o hen bethau cywrain ereill. Dangosent fod Dafydd wedi bod yn gasglwr diwyd yn amser goreu ei fywyd.

Ond rhaid tynu tua'r diwedd Ofer fyddai sylwi fod y fath ddyn a Dafydd yn gywrain yn ei grefft. Pan fyddai rhywbeth neillduol gan rywun yn y gymmydogaeth i'w wneuthur mewn haiarn neu bres, at Dafydd yr oeddid yn myned. Cyweiriai beiriannau dyrnu, helpai glo dryll, temprai offerynau awch, y fath na wnai neb yn well. Weithiau gwnelai bethau y tu allan i'w gelfyddyd. Gellir gweled yn ei efail gorwgl hardd o'i waith. Ei ddyben penaf yn ei wneyd oedd croesi Teifi i'r cwrdd i Alltyplacca yn lle roundio i bont Llanybyther. Ys tair blynedd yn ol croesodd yr ysgrifenydd lyn Pencarreg ynddo gyda Dafydd yn rhwyfo wrth ei ochr, ond rhaid addef, nid gyda rhyw bleser neillduol. Pan oddeutu canol y llyn nis gallasai lai na chofio dwy linell ddifyr Dai'r Cai pan unwaith mewn cyffelyb sefyllfa ar bwll dwfn yn Nheifi—

> Han o bitch a han o flanced
> Sydd rhwng Dai'r Cai a thragwyddoldeb.

Nid oedd dim yn ddrwg ganddo pan gyrhaeddwyd y traeth yn ddiangol.

O ran ei syniadau crefyddol Undodiwr trwyadl a golau oedd Dafydd, ac yn myned i Alltyplacca i wrando, ac yn un o ddarllenwyr cysson yr

Ymofynydd. Er nad oedd, fel llawer o honom, yn rhydd oddiwrth ffaeleddau, yr oedd yn Dafydd anian grefyddol.

Mewn *politics* yr oedd yn Rhyddfrydwr, os nid yn *Radical*. Mynych y dywedai y carai weled yr Eglwys Sefydledig wedi cael ei gosod, gyda golwg ar y Stad, ar yr un esgynlawr a sectau ereill, ac i fod dydd Eglwys Sefydledig wedi pasio. Gwell i Gristnogaeth, meddai, a gwell i'r wlad, fyddai i bob enwad gynnal ei achos ei hun, a pheth annghyfiawn mewn llywodraeth, a pheth na ddyoddef y bobl yn hir mwyach, yw gwneyd mwy o un enwad na'r llall.

Croes iawn hefyd oedd Dafydd i'r gyfraith sydd yn dal tiroedd y gwyr mawr gyda'u gilydd, sef *The Law of Entail*. Dylai holl dir y wlad, meddai, fod yn rhydd yn y farchnad, fel pob nwydd arall. "Chwi welwch pe dyddimid y gyfraith, sydd yn un o weddillion barbariaeth, na fyddai dim o'r fath beth a Phendefigaeth, neu *Aristocracy*, yn ein gwlad; oblegyd deuai ei thiroedd i gyd, yn mhen amser, i'r farchnad. Y gyfraith hon sydd yn dal i fyny Bendefigaeth. Mewn cyfiawnder eiddo y bobl yw'r tir, ac nid eiddo ychydig o deuluoedd yn y wlad. Chwi welwch, hefyd, pe dyddimid y gyfraith hon y darfyddai yr Eglwys Sefydledig fel sefydliad gwladol; oblegyd y Bendefigaeth sydd yn cadw yr Eglwys hon ar ei thraed, ar egwyddor y Brenin Iago, *No bishop, no king*. Eglwys y Bendefigaeth, neu y gwyr mawr, yw hi, ac nid Eglwys y bobl, er y myn yr offeiriaid i ni gredu yn wahanol."

Dyna fel yr ymresymai Dafydd, a phwy all amheu nad oedd yn iawn? Rhyfeddu yn wastad oedd yr ysgrifenydd wrth ei glywed, ei fod wedi cyrhaeddyd cymmaint mwy o wybodaeth na'r werinos yn gyffredin.

Fel cymmydog, dyn tawel, diniwed, a chymmwynasgar oedd Dafydd y Gof. Nid oedd ganddo elyn yn y byd. Fel cyfaill, dyn serchog y gwelodd yr ysgrifenydd ef bob amser. Yr oedd yn nodedig o serchog yn ei dŷ, a dyna b'le mae 'nabod dyn oreu. Ond yn awr, mae Dafydd wedi ymadael â'r fuchedd hon, fel y bydd yn rhaid i bawb o honom ninau cyn hir. Ni wyr neb pa mor fuan. Ffarwel, Dafydd, yr ydwyt ti yn un o'r sawl y bydd yn hyfryd gan yr ysgrifenydd ail gyfarfod yn nydd mawr yr adgyfodiad. Os y bydd gan y Barnwr Cyfiawn lawer i faddeu i ti, felly y bydd ganddo hefyd i.

D. L. E

Manion ac Hanesion.

Dywedir fod boddio llygaid ereill yn costio mwy i ddyn nâ boddio ei lygaid ei hun.

Yn anfynych y mae yspryd crintachlyd yn yspryd gweithgar. Haws nodi bai ar yr hyn a wnaed gan arall nag yw i ddyn wneuthur rhywbeth ei hunan; ac felly ceir y dyn sydd yn mwynhau gwneuthur y peth hawddaf heb un duedd ynddo i wneuthur y peth caletach. Fel rheol, gellir rhanu dynion i ddau ddosparth, rhai yn crintach a rhai yn gweithio; a phob un yn

ymroddedig i'w genadwri ei hun. Ond pan ddeuir i ystyried gwerth cymharol y ddau ddosparth i gymdeithas, nid yw yn anhawdd i neb ddyfod i benderfyniad.

Mae naw deg a naw o bob cant o ddynion yn credu yn eu calon fod dydd barn i ddod, ac y mae naw deg ac wyth o honynt yn dirgel gredu y bydd iddynt hwy rywfodd ddianc yn y wasgfa.

Mewn llythyr Mai 26, 1808, oddiwrth Esther Rees, o Gastellnedd, at J. James, Llwydjack, y mae yn rhoi iddo y *pose* canlynol:—

"*Tea is no cure.*

"As you are a genius, find me a *word* containing all the letters in the above sentence, and *no more.*"

Carwn wybod y *gair*. A oes un o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD all ddweyd beth yw?

T.T.

GELLIONEN—Prydnawn dydd Sadwrn, Awst y 29ain, cynnaliwyd gwyl de yn y capel uchod. Trodd yr hin allan yn hynod ffafriol, a chawsom brydnawn teg a hyfryd yn nghanol tywydd garw. Daeth tyrfa luosog yn nghyd, a chyfranogodd oddeutu 800 o'r wledd. Gwelsom gyfeillion o Aberdar ac Abertawe yn bresenol; diolch yn fawr iddynt am eu cydymdeimlad. Trosglwyddir yr elw i drysorfa adeiladu capel newydd yn Nghraigtrebannos.

CWMBACH—Yn ddiweddar cynnaliwyd cyfarfod dyddorol yn y lle, er cyflwyno anrheg fechan, yn arwydd o barch, i Mr John Thomas, mab Mr. Evan Thomas, yr hwn sydd newydd uno â heddgeidwaid Sir Forganwg. Cafodd eglwys Cwmbach golled ar ol y brawd ieuanc hwn, am ei fod yn aelod hardd o'r cor, ac yn weithgar gyda phob mudiad.

LLANDYSSUL—Mae yn llawen iawn genym nodi fod llai o'r yspryd sectarol yn ffynu yn ardal Llandyssul nag a fu. Yn ddiweddar pregethodd y Parch. W. J. Davies yn nghapel y Wesleyaid, St. David's, Llandyssul; ac yn awr mae genym y pleser o nodi i'r Parch. W. James, B.A., bregethu yn nghapel y Bedyddwyr, Llandyssul. Rhagor o hyn sydd eisieu—*Cyfaill.*

MERTHYR—Paentiwyd y capel uchod yn ddiweddar â lliwiau chwaethus dros ben o ddewisiad boneddigesau yr eglwys, ac yr ydys wedi gwneyd i fyny y treuliau o'r tu allan i drysorfa yr eglwys.—Medi 13, cynnaliodd yr un eglwys ei chyrddau blynyddol, pryd y pregethodd y Parch. R. J. Plater, Unity Church, Islington, Llundain, yr hwn a fu yn offeiriad Eglwys Rydd Penarth, ger Caerdydd, ond sydd yn awr yn Undodwr. Cawsom gynnulliadau da, ac os oedd yno rywun heb glywed Undod nceth yn cael ei bregethu o'r blaen, clywsant ef gan Mr. Plater.—Hefyd, y mae un arall wedi dyfod drosodd oddiwrth y Bedyddwyr, o'r enw S. Pendred, wedi bod yn weinidog gyda brodyr y dwr am ddwy flynedd ar bymtheg. Dechreua ar ei weinidogaeth yn Eglwys Undodaidd Bournemouth ar y 27ain o'r mis hwn (Medi).—Bu yr Ysgol Sul eleni fel arfer ar ymweliad â hen adfeilion Cwmyglo, ac yr oedd yr hin yn ddymunol iawn. Cafwyd areithiau gan y Parchn. N. R. Williams a J. Hathren Davies, Cefn, yn nghyd â Mri. Thomas a Goodfellow. Dylaswn ddweyd fod rhan luosog o Ysgol Cefncoed wedi ymuno â ni eleni; a charwn yn fawr weled hyny yn sefydliad blynyddol—Aberdar, Cwmbach, Cefn, a Dowlais, yn ymuno â ni, o herwydd mai hwn yw y fan yr addolwyd Duw gyntaf gan Ymneillduwyr Cymru.—Medi 16, bu gwyl dê yr Ysgol Sul yn Mhontsarn, pryd y cyfranogodd 150 o blant, boneddigesau, a boneddigion o'r danteithion parotoedig gan foneddigesau yr Ysgol Sul. Mwynhaodd y plant eu hunain i berffeithrwydd gyda gwahanol chwareuon diniwed a dyfyrus. Yr ydym oddiar deimlad o ddyledswydd yn diolch i'r boneddigesau am eu gwasanaeth.

Marwgofion.

Gorphenaf 17, Mr. John Thomas, gof, Ffosgiach, yn 63 oed Gwr tawel, dirodres, a chymmwynasgar oedd y diweddar frawd. Y mae Carlyle yn dweyd fod dystawrwydd yn euraidd: yr oedd Mr. Thomas yn meddu y briodoledd hon i radd helaeth iawn. Byth ni chlywsid John y Gof yn dweyd gair drwg am neb, a charai edrych

ar ochr oleu y darlun, ac nid ar yr ochr dywell iddo. Yr oedd yn un o ffyddloniaid Bwlchyfadfa—yn y cwrdd a'r ysgol—os na rwystrid ef gan amgylchiadau anorfod. Dydd Mawrth, y 23ain, daeth cynhebrwng lluosog i dalu y gymmwynas olaf i'r brawd, a gosodwyd yr hyn oedd farwol o'r brawd yn nghladdfa brydferth Capelyfadfa. Gwasanaethodd y Parch Thomas Thomas, Pantydefaid, yn y ty a'r capel, a thraddododd bregeth rymus a tharawiadol i'r achlysur. Methodd y Parch. W J. Davies, gweinidog yr ymadawedig, a bod yn bresenol, o herwydd ei fod yn gwasanaethu mewn angladd arall yr un boreu. Diolch i Mr. Thomas am wasanaethu yn ei le. Gadawodd Mr. John Thomas weddw a dau o blant i alaru ar ei ol, a gobeithiaf y troant at Dad y weddw a'r amddifaid er iddynt gael goleuni a chysur dan y caddug presenol.

Awst 28, Anne, merch fechan William a Sarah Thomas, Cefncoed, yn 15 mis oed. Plentyn prydferth iawn oedd hon, ac ymddangosai ar un adeg yn hollol iach, ac yn debyg o gael hir oes yn y byd; ond, er siom fawr i'w rhieni, gafaelodd y ddarfodedigaeth ynddi, a bu yn gwanychu am tua thri mis cyn i'r genad ddod oddiwrth y Tad doeth. Y Llun canlynol claddwyd ei chorff yn mynwent yr Hen Dy Cwrdd, pryd y gwasanaethwyd gan y gweinidog. 'Eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd.'

Medi 5, yn fis oed, bu farw Mary, merch Evan a Mary Walters, Ffynnonsaer, Llandyssul. Claddwyd hi yn Pantdefaid, y Llun canlynol Gweinyddodd y Parch Thomas Thomas ar yr achlysur.

Medi 6, Margaret Davies, Plasbach, Pencarreg, ger Llanbedr, yn 66 mlwydd oed. Yr oedd ein chwaer hon yn lled wael ei hiechyd er ys rhai blynyddau, weithiau yn well ac weithiau yn waeth; ond daeth diwedd y daith yn bur annysgwyliadwy. Yr oedd wedi bod yn fenyw iach iawn; gweithiodd yn hynod galed drwy ei hoes; yr oedd yn fam i haid fawr iawn o blant, a gwyddai am y brofedigaeth chwerw o gladdu llawer o honynt; ac y mae llawer o honynt wedi ei goroesi, y rhai ydynt heddyw mewn dwfn alar o herwydd colli un fu iddynt yn fam dyner, ddarbodus, a thu hwnt i'r cyffredin o ofalus am ei phlant. Gwyddai hefyd beth oedd cael ei hamddifadu o briod, a byw am flynyddau heb ei gynnorthwy a'i gydymdeimlad. Cerddodd am flynyddau i'r cwrdd i Caeronen; ond wedi adeiladu Brondeifi ymaelododd yno, a phan yn iach a chartref, anaml, os byth, y byddai ei sedd yn wag yn y capel ar y Sul, a phrydiau ereill. Nid ydym yn gwybod am neb y gellir dywedyd am dani gyda mwy o briodoldeb, 'Yr hyn a allodd hon hi a'i gwnaeth,' ac er wedi marw, y mae hi etto yn llefaru. Ar ddydd ei hangladd ymgasglodd torf luosog i dalu parch i'w choffadwriaeth, ac mewn cydymdeimlad â'r galarwyr, ac i hebrwng ei gweddillion i fedd yn mynwent Caeronen. Gwasanaethwyd gan y gweinidog. Cyflwynwn y plant oll i ofal y Tad mawr.

Medi 11, Jenkin David, o *workhouse* Llanbedr, yn 81 mlwydd oed. Yr oedd y brawd hwn a'i oedran wedi rhedeg yn mhell, ac yn gwaelu yn raddol am gryn amser. Dyeithr i ni hyd yn ddiweddar oedd yr ymadawedig, ond yr ydym yn deall iddo dreulio y rhan fwyaf o'i oes yn nghymmydogaeth Llanybyther; ac yno, fel canlyniad, y profodd y rhan fwyaf o felusderau a chwerwderau bywyd, a bu ei gwpan yn aml yn llawn iawn o'r chwerw, gan nad beth am y melus. Carai yn fawr dalu ymweliad yn achlysurol â'r ychydig gyfeillion oedd yn fyw yn nghymmydogaeth Llanybyther, ac yn enwedig Mrs Evans, Maesymeillion, a byddent hwythau bob amser yn hoff iawn o'i weled, a rhoddent iddo dderbyniad croesawgar. Diolch am ychydig gyfeillion caredig a dirodres fel hyn Yr oedd wedi claddu ei wraig, a'r rhan fwyaf o'i blant er ys blynyddau, ac nid oedd yn gwybod fod yr un o honynt yn fyw ar y ddaear heddyw. Yr oedd wedi datgan ei ddymuniad i gael ei gladdu yn Aberduar, ac anfonodd ei gyfeillion elor-gerbyd Llanwenog i'w gludo, a chladdwyd ef yn yr un bedd ag un o'i blant. Yr oedd iddo frawd yn yr angladd, ond nid ydym yn gwybod am un berthynas agos arall oedd yno, ac fel rheol ychydig o berthynasau pell sydd gan ddyn tlawd. Diolch i'r rhai fuont yn gweini arno yn ei ddyddiau diweddaf. Mynychai gapel Brondeifi pan yn alluog, a daeth amryw o'r aelodau i'r gwasanaeth ddydd ei angladd, a gwasanaethwyd gan y gweinidog.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.